

Cronfa Bensiwn Dyfed

Polisi Rheoli Risg

Mehefin 2025

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Amcanion	2
Rolau a Chyfrifoldebau.....	2
Nodi Risg	3
Rheoli Risg.....	4
Monitro Risg.....	4
Hyfforddiant.....	4
Adrodd	4
Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)	4
Adolygiad o'r Polisi Rheoli Risg	5
Gwybodaeth Gyswllt.....	5

Cyflwyniad

Dyma Bolisi Rheoli Risg Cronfa Bensiwn Dyfed ("y Gronfa"), sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n cael ei reoli a'i weinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r Gronfa yn cydnabod ei bod yn wynebu nifer o risgiau a all, os na chânt eu rheoli, gyfyngu ar ei gallu i fodloni ei hamcanion.

Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu cred y Gronfa y bydd llywodraethu da a gwell tryloywder yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau gwell canlyniadau i'r Gronfa a'i rhanddeiliaid. Mae'r rhaid i'r Gronfa wneud ymdrech i fod yn ymwybodol o'r holl risgiau y mae'n eu hwynebu a chael gweithdrefnau ar waith i'w rheoli.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bwyllgor pensiwn, bwrdd pensiwn, swyddogion ac ymgynghorwyr allanol y Gronfa. Mae'r Gronfa yn cydnabod bod gan yr unigolion hyn rôl i'w chwarae wrth nodi, deall, rheoli a monitro'r risgiau sy'n wynebu'r Gronfa.

Amcanion

Amcanion y Gronfa wrth baratoi'r polisi hwn yw egluro'r canlynol:

- sut mae'r Gronfa yn ystyried risgiau, ei hymagwedd at risg, ac i ba raddau yr ystyrir risg yn ei phrosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau
- sut y caiff risgiau eu nodi, eu rheoli a'u lliniaru
- sut y bydd y Gronfa yn lleihau'r tebygolrwydd o ganlyniadau negyddol i lefel briodol yn unol â pharodrwydd y Gronfa i dderbyn risg

Gan mai Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n gyfrifol am reoli'r Gronfa, byddwn hefyd yn ystyried Fframwaith Rheoli Risg Cyngor Sir Caerfyrddin ac yn sicrhau bod risgiau'r Gronfa yn cael eu sgorio mewn modd sy'n gyson â'r Fframwaith hwnnw.

Mae'r Gronfa yn ymwybodol na all rhai risgiau gael eu lliniaru'n llawn, ac mae'n cydnabod yr angen i groesawu risg a sicrhau ei bod yn cael ei rheoli'n weithredol ac yn effeithiol. Mae'n hanfodol, cyn gwneud penderfyniadau, bod y Gronfa yn deall y risgiau cysylltiedig ac yn ystyried ym mha ffyrdd y gellid rheoli'r risgiau hyn.

Rolau a Chyfrifoldebau

Fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, mae'n rhaid i ni fod yn fodlon bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. At y diben hwn, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r unigolyn dynodedig ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â'r broses isod.

Y Pwyllgor Pensiwn:

- Cymeradwyo newidiadau i'r polisi hwn
- Gosod y lefel briodol o barodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y Gronfa
- Adolygu cofrestr risg y Gronfa ym mhob cyfarfod
- Darparu goruchwyliaeth a bod yn gyfrifol am drefniadau rheoli risg y Gronfa

Y Bwrdd Pensiwn:

- Adolygu cofrestr risg y Gronfa ym mhob cyfarfod
- Darparu goruchwyliaeth a her ynghylch effeithiolrwydd fframwaith, prosesau a systemau Rheoli Risg y Gronfa
- Darparu goruchwyliaeth a her ynghylch y gofrestr risg

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol:

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau y cydymffurfir â gofynion y polisi hwn, gan gynnwys:

- Sicrhau bod y gwaith o reoli risgiau yn cael ei drafod yn ôl yr angen i gyflawni amcanion y polisi hwn yn y pwyllgor pensiwn a'r bwrdd pensiwn
- Sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn yn unol â'r polisi hwn yn cael eu hintegreiddio ym mhob agwedd ar reoli'r Gronfa o ddydd i ddydd
- Adolygu'r holl newidiadau i gofrestr risg y Gronfa

Swyddogion y Gronfa:

- Nodi risgiau ac asesu lefelau risg
- Sicrhau bod mesurau rheoli priodol yn cael eu nodi a'u rhoi ar waith
- Adolygu'r mesurau rheoli presennol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol, a nodi mesurau rheoli newydd pan fo'n berthnasol
- Sicrhau bod eu rhannau perthnasol o gofrestr risg y Gronfa yn cael eu diweddarau a'u hadrodd yn unol â'r polisi hwn
- Sicrhau cynlluniau parhad busnes cadarn
- Sicrhau bod goblygiadau ehangach risgiau a nodwyd yn cael eu hystyried a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd yn sgil hynny, gan gynnwys cofnodi ac adrodd ar achosion o dorri'r gyfraith
- Ceisio cyngor ac arweiniad gan ymgynghorwyr a chyflenwyr yn ôl yr angen ar gyfer rheoli risgiau
- Ceisio sicrwydd gan ymgynghorwyr a chyflenwyr ynglŷn â rheoli mesurau rheoli mewnol yn eu sefydliadau

Nodi Risg

Mae gwaith nodi risg y Gronfa yn canolbwyntio ar nodi risgiau sydd eisoes yn bodoli a risgiau a allai godi yn y dyfodol. Bydd dull rhagweithiol o nodi risgiau yn y dyfodol yn caniatáu i'r Gronfa fod yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, a dylai hyn sicrhau bod y gwaith o reoli risg yn fwy effeithiol.

Mae'r Gronfa yn defnyddio'r canlynol i nodi risgiau:

- Ymarfer asesu risg manwl gan swyddogion
- Adborth a chyfathrebu â'r pwyllgor pensiwn a'r bwrdd pensiwn
- Ymarferion archwilio mewnol neu allanol

- Llundio Cynllun Busnes Blynnyddol y Gronfa

Rheoli Risg

Mae cofrestr risg y Gronfa yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa ynghyd â'r mesurau rheoli sydd wedi'u rhoi ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Mae'r gofrestr yn nodi tebygolrwydd ac effaith risgiau heb eu rheoli ac yna'n tynnu sylw at y tebygolrwydd a'r effaith ar ôl rhoi mesurau rheoli perthnasol ar waith.

Monitro Risg

Bydd swyddogion yn monitro risgiau'n rheolaidd ar y cyd â'r pwyllgor pensiwn a'r bwrdd pensiwn. Wrth wneud y gwaith monitro, bydd swyddogion yn ystyried y canlynol:

- a oes unrhyw risgiau newydd nad ydynt wedi'u nodi o'r blaen
- a yw'r mesurau rheoli presennol yn parhau i fod yn briodol
- a ellir rhoi unrhyw fesurau rheoli newydd ar waith i liniaru unrhyw risgiau ymhellach
- a oes unrhyw newidiadau i risgiau sydd eisoes wedi'u nodi neu effeithiolrwydd mesurau rheoli sy'n effeithio ar y sgoriau risg

Hyfforddiant

Mae'r Gronfa yn cydnabod bod hyfforddiant ac addysg yn hanfodol wrth sicrhau canlyniadau da a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn ymgymryd â hyfforddiant ac addysg reolaidd ar nodi, rheoli a monitro risg. Un o'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â rhoi'r polisi hwn ar waith yn llwyddiannus yw na fydd gan aelodau neu swyddogion y pwyllgor pensiwn a'r bwrdd pensiwn y wybodaeth angenrheidiol i nodi a rheoli risgiau'n effeithiol.

Adrodd

Mae gan y pwyllgor pensiwn gyfrifoldeb am sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn ar waith. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cynghori ar y Cynllun yn awgrymu y gallai'r bwrdd pensiwn adolygu'r gofrestr risg mewn perthynas â swyddogaeth yr Awdurdod fel rheolwr y cynllun.

Bydd cynnydd o ran rheoli risgiau yn cael ei fonitro a'i gofnodi ar gofrestr risg y Gronfa a fydd yn cael ei chyflwyno i bob cyfarfod o'r pwyllgor pensiwn a'r bwrdd pensiwn fel rhan o'r gwaith rheolaidd o reoli risgiau. Efallai y bydd achlysuron, oherwydd amseriad cyfarfodydd, lle na fydd y gofrestr risg yn cael ei chyflwyno i bob cyfarfod. Bydd swyddogion yn sicrhau bod yr achlysuron hyn yn cael eu lleihau gymaint â phosibl.

Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar risgiau sy'n benodol i'r Gronfa yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau Llywodraethu, Cyllido a Buddsoddi a Gweithredol ac yn cwmpasu gweithgareddau Buddsoddiadau a Chyfrifyddu, a Gweinyddu'r Gronfa.

O ran buddsoddiadau cyfun y Gronfa, fel un o awdurdodau cyfansoddol PPC mae'r Gronfa yn cydnabod polisi risg a chofrestr risg PPC.

Adolygiad o'r Polisi Rheoli Risg

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol a'i ddiweddarau'n ffurfiol o leiaf bob tair blynedd. Disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gwblhau yn 2028 oni bai bod materion yn codi sy'n gofyn i'r polisi gael ei adolygu'n gynharach.

Gwybodaeth Gyswilt

E-bost	pensiyau@sirgar.gov.uk
Ffôn	01267 224 893
Cyfeiriad	Cyngor Sir Caerfyrddin Neuadd y Sir Caerfyrddin SA31 1JP